**CFA23 Iaith**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Iaith | Evidence from: Iaith

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Mae siaradwyr Cymraeg yn tueddu defnyddio Saesneg yn hytrach na Chymraeg gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod a phobl sydd ddim yn amlygu eu gallu/parodrwydd i siarad Cymraeg neu ddeall eraill sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn wir yn unrhyw ran o Gymru ond mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg mae siaradwyr Cymraeg yn dueddol o beidio rhagdybio bod pobl nad ydynt yn eu hadnabod yn medru siarad / deall Cymraeg.

Roedd IAITH yn rhan o brosiect Ewropeaidd Erasmus + LISTEN oedd yn datblygu hyder ieithyddol ar gyfer siaradwyr ieithoedd lleiafrifol. Cynsail y prosiect oedd bod siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn addasu eu hymddygiad ac yn troi i iaith fwyafrifol gan osgoi defnyddio eu hiaith eu hunain. O'n profiad ni, gwelwn bod hyn yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg ym mhob ardal o Gymru.

Deallwn bod addasiadau i ymddygiad siaradwyr Cymraeg a ieithoedd lleiafrifol eraill yn enghraifft o ymostyngiad ieithyddol (linguistic submissiveness). Mae ymostyngeiddrwydd yn golygu bod rhywun yn atal ei hun (yn ddigymell) rhag ymddwyn mewn rhyw ffordd o ganlyniad i arfer, neu ofn cael ei gosbi. Mae ymostyngiad ieithyddol yn digwydd pan fydd rhywun yn stopio siarad ei iaith ei hun ac yn newid i'r iaith arall, hyd yn oed pan nad oes unrhyw un wedi gofyn iddo i wneud hynny. Mae yna sawl math o ymostyngiad ieithyddol. Gall pob un ohonynt achosi pryder i'r siaradwr ac maent yn aml yn cymell ymdeimlad o fethiant a diymadferthedd.

Mae IAITH wedi datblygu hyfforddiant sy'n adeiladu ar y cysyniad o Gadernid Iaith mewn ymateb i'r her o ddiffyg defnydd o'r Gymraeg, ar sail gwersi y prosiect LISTEN.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Mae'n rhaid defnyddio'r Gymraeg i greu gofodau Cymraeg neu cyfleoedd i annog mwy o ddefnydd o'r iaith. Mae canolbwyntio ar ofodau neu chyfleoedd gyda'r potensial o esgeuluso rôl siaradwyr eu hunain. Yn yr un modd, mae'r canfyddiad o ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, neu fwy o

siaradwyr Cymraeg, yn esgeuluso rôl siaradwyr eu hunain ac yr amrywiaeth o sgiliau ieithyddol a dulliau caffael sydd yn nodweddu proffiliau siaradwyr Cymraeg heddiw. Yn hyn o beth, mae angen rhoi mwy o ffocws ar siaradwyr eu hunain yn hytrach nag ystyried bod rhai gofodau yn gysylltiedig gyda'r defnydd o'r Gymraeg, neu bod angen cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg – mae bob rhyngweithiad yn gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae deall hyn yn allweddol i ddeall diymadferthedd siaradwyr ieithoedd lleiafrifol.

O gynnal hyfforddiant ledled Cymru, rydym wedi hen flino ar glywed yr ystrydebau bod pobl o X yn siarad Cymraeg yn well, nad yw Cymraeg siaradwr yn 'ddigon da', neu nad oes Cymraeg i'w glywed yn Y. Cysyllta'r ystrydebau hyn gyda'r dychymyg daearyddol o'r Gymraeg, neu ymdrechion polisi a chynllunio iaith sydd yn datgysylltu siaradwyr o'r Gymraeg trwy ddefnyddio fframwaith daearyddol (neu o gyfleoedd neu ofodau) . Mae Cadernid Iaith yn dangos i ni bod modd ymyrryd yn uniongyrchol ar ddefnydd iaith siaradwyr. Ein dadl yw, taw defnydd iaith sy'n nodweddu gofod neu cyfle i annog mwy o ddefnydd o'r iaith. Mae pob ofod neu ddigwyddiad yn gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

Mae IAITH yn cynnig gweithdai a hyfforddiant sy'n seiliedig ar y cysyniad o Gadernid Iaith. Rydym wedi cynnal yr hyfforddiant gydag sefydliadau amlwg sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg ac ym maes addysg a'r blynyddoedd cynnar gan gynnwys meithrinfeydd, ysgolion uwchradd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Gwynedd, Mudiad Meithrin, metrau iaith ac eraill. Mae pobl sy'n byw ym mhob cwr o Gymru wedi mynychu'r hyfforddiant hwn. Tra bod ymddygiad ieithyddol unigolion yn amrywio yn ôl eu gwerthoedd, arferion a lefelau cadernid iaith, mae tuedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gyda dwysedd is o siaradwyr Cymraeg i beidio rhoi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ble nad ydynt yn adnabod yr unigolion eraill (e.e. wrth siopa). Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol o'r sesiynau, gydag enghreifftiau lu o unigolion yn dechrau newid eu harferion iaith. Rydym wedi datblygu baromedr i fesur traweffaith yr hyfforddiant ar ddefnydd a chadernid iaith mynychwyr.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

I ategu'r ateb i gwestiwn 2 uchod, mae'n beryg bod digwyddiadau neu gofodau o'r fath yn atgyfnerthu'r canfyddiad o raniad rhwng gofodau neu ddigwyddiadau lle mae'r Gymraeg yn perthyn iddi ac ar y llaw arall digwyddiadau a gofodau lle nad oes cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

Nodwn o'r ymchwil a gynhaliodd IAITH ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn bod staff rheng flaen sy'n medru Cymraeg ddim o reidrwydd yn cyfarch aelodau'r cyhoedd mewn modd sy'n gwahodd y cwsmer / defnyddiwr i ddefnyddio eu Gymraeg (siarad / deall). O'n profiad ni, mae'r unigolion sy'n darparu/trefnu gwasanaethau a digwyddiadau angen hyfforddiant cadernid iaith er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u harferion iaith a newid/addasu eu defnydd iaith. Mae defnyddwyr gwasanaethau / mynychwyr digwyddiadau angen yr un hyfforddiant.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**